CYNULLIAD - CYFYNGEDIG

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**

# Crynodeb Grwpiau Ffocws
Newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit – y goblygiadau i Gymru

Hydref 2019

## Y cefndir

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau yn deillio o grwpiau ffocws a gynhaliwyd fel rhan o waith y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar y newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit. Cynhaliwyd y grwpiau ffocws yng Nghaerdydd ar 30 Medi 2019 ac roeddent yn cynnwys dinasyddion yr UE[1] a fydd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan newidiadau posibl i reolau rhyddid i symud ar ôl Brexit, ac unigolion sy'n gweithio i sefydliadau ac elusennau sy'n eu cynrychioli.

Trefnwyd y sesiwn gan dîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Cynulliad trwy sefydliadau partner, a thrwy randdeiliaid a oedd wedi ymgysylltu â thrafodaethau'r fforwm ar-lein ar y platfform Loomio dros yr haf.

[1] Dalier sylw: mae unrhyw gyfeiriad at ddinasyddion yr UE yn y ddogfen hon yn golygu dinasyddion o wledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd ac Ardal Economaidd Ewropeaidd sy'n byw yng Nghymru a'r DU.

Yn bresennol ac yn hwyluso'r grwpiau ffocws roedd David Rees a Mandy Jones; Alun Davies a Delyth Jewell.

# 1. Crynodeb o'r canfyddiadau

## 1. 1. Cynllun Setliad yr UE

### Cyffredinol

**1.** Cafwyd tystiolaethau personol grymus ac emosiynol ynghylch Cynllun Setliad yr UE yn ystod sesiynau'r grwpiau ffocws.

**2.** Soniodd llawer o gyfranogwyr eu bod yn teimlo nad oedd croeso iddynt bellach yn y DU yn dilyn refferendwm yr UE, a bod y polisi a ddilynwyd gan Lywodraeth y DU ers y refferendwm wedi gwaethygu hyn.

**3.** Nododd nifer o gyfranogwyr fod rhywfaint o'r rhethreg ynghylch mudo o'r UE wedi caledu a bod hyn wedi cael effaith ar eu lles emosiynol nhw, a lles ffrindiau a/neu aelodau o'r teulu.

**4.** Pwysleisiodd un cyfranogwr nad proses weinyddol yn unig mo hyn, a'i bod yn bwysig cofio bod y broses yn effeithio ar fywydau pobl go iawn. Aeth y cyfranogwr ymlaen i ddweud: "Mae'r weithred o orfod gwneud cais am statws sy'n lleihau hawliau rhywun yn teimlo'n israddol. Does ryfedd nad oes ciwiau i wneud y ceisiadau".

**5.** Nododd bron pob cyfranogwr y lefel isel o gofrestru ar gyfer Cynllun Setliad yr UE yng Nghymru. Gan gyfeirio at yr effaith yr oedd y Cynllun yn ei chael ar bobl ar lawr gwlad, nododd un cyfranogwr fod "polisïau'n cael eu drafftio ar gyfer senarios delfrydol, ond nid yw bywydau'n ddelfrydol".

### Cymorth Llywodraeth Cymru

**6.** Nododd y rhai sy'n gweithio i'r trydydd sector fod lefel y gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, o ran cefnogaeth ariannol a'r gwaith cydlynu sy'n cael ei ddarparu gan swyddogion, yn uchel.

**7.** Roedd rhai cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws wedi llwyddo i gael cyllid gan Lywodraeth Cymru trwy Gronfa Drosglwyddo'r UE, ac roedd eraill wedi cynnig am arian yn uniongyrchol gan y Swyddfa Gartref.

**8.** Roedd ystod o wahanol grwpiau yn cael eu cefnogi gan yr elusennau oedd yn bresennol, gan gynnwys grwpiau agored i niwed megis pobl â llesiant

meddyliol gwael, pobl sydd wedi'u heithrio yn ddigidol, pobl sy'n cael trafferth gyda rhwystrau iaith, a chymunedau anoddach eu cyrraedd fel y gymuned Roma yng Nghymru.

**9.** Nododd y rhan fwyaf o gyfranogwyr sy'n cynrychioli'r trydydd sector, er bod eu gwaith yn aml yn cael ei dargedu at adrannau penodol neu feysydd angen, eu bod mewn gwirionedd yn darparu cymorth a chefnogaeth i holl ddinasyddion yr UE sy'n ceisio cymorth, neu yn eu cyfeirio at ble y gallant ddod o hyd i gymorth a chyngor.

## Cyfathrebu a negeseuon

**10.** O ran cyfathrebu, teimlwyd bod nifer o negeseuon dryslyd ac, mewn rhai achosion, negeseuon gwrthgyferbyniol yn dod gan y llywodraeth, ac yn cylchredeg o amgylch y wlad yn gyffredinol.

**11.** Tynnodd un cyfranogwr sylw at y ffaith fod y negeseuon gwrthgyferbyniol hyn weithiau'n dod o'r llywodraeth ganolog, a gan Weinidog sy'n gwasanaethu yn Llywodraeth y DU. Tynnodd y rhain sylw at sylwadau diweddar gan yr Ysgrifennydd Cartref yn ymwneud â 'dim bargen' a dod â rhyddid i symud i ben ar unwaith.

**12.** Nodwyd, er bod Llywodraeth Cymru wedi gwella ei gwaith cyfathrebu yn ystod y misoedd diwethaf, nad oedd y gwaith hwn yn ddigonol. Yn arbennig, roedd y cyfranogwyr yn teimlo nad oedd y negeseuon yn cyrraedd unigolion a theuluoedd a oedd yn cael eu heffeithio ar lawr gwlad. Pwysleisiwyd yr angen am gynllun cyfathrebu a fyddai'n cynnwys negeseuon allweddol, ac y dylid ei ledaenu trwy'r gwasanaethau cyhoeddus e.e. byrddau iechyd lleol, ysgolion a llywodraeth leol.

**13.** Tynnodd rhai cyfranogwyr gymariaethau rhwng y negeseuon clir a diamwys o gefnogaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth yr Alban i ddinasyddion yr UE yn yr Alban a'r canfyddiad bod y negeseuon sy'n dod o Lywodraeth Cymru yn fwy tawedog, ac nad oeddent, fel y gofyniad lleiaf, yn cyrraedd yr unigolion a'r cymunedau yr effeithir arnynt.  Roedd llawer yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru geisio efelychu arweiniad Llywodraeth yr Alban yn y maes hwn, a chryfhau sut mae'n cyfleu ei negeseuon o gefnogaeth i ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru.

## Materion yn ymwneud â'r Cynllun

**14.** Tynnodd rhai cyfranogwyr sylw at anawsterau ymarferol yn ymwneud â gweithrediad y cynllun.

**15.** Un maes a oedd yn peri pryder oedd achosion pryd yr oedd aelodau o'r un teulu yn cael statws gwahanol, a bod hyn yn achosi cymhlethdodau a phryder o fewn aelwydydd.

**16.** Nododd llawer yr anawsterau yn ymwneud â natur ddigidol yn unig y cynllun. Nododd rhai o'r bobl a oedd yn gweithio gyda grwpiau agored i niwed, yn benodol, y gallai'r angen i'r unigolion hynny greu cyfeiriad e-bost er mwyn cofrestru ar gyfer y cynllun beri problemau mewn blynyddoedd i ddod. Dadleuwyd y gellid ystyried darparu dogfen ffisegol i gofrestreion.

**17.** O ran y gofyniad i sganio dogfennau, nodwyd mai dim ond un ganolfan sganio dogfennau sydd yng Nghymru gyfan (yng Nghaerffili) ac y gall y costau cysylltiedig fod yn uchel iawn.

**18.** Nododd un cyfranogwr fod cost apwyntiad i sganio dogfennau fel rhan o gais am breswyliad parhaol (sy'n wahanol i Gynllun Setliad yr UE) oddeutu £200. Dywedodd y cyfranogwr "eu bod yn ei gwneud yn anodd yn fwriadol i ddinasyddion yr UE".

**19.** Rhannodd cyfranogwyr eraill brofiadau lle bu'n rhaid i deuluoedd, y gallai eu plant fod wedi'u geni yn y DU, drefnu apwyntiadau mewn llysgenadaethau neu, mewn rhai achosion, deithio i wlad enedigol eu rhieni, er mwyn cael dogfennau (pasbortau yn bennaf) ar gyfer aelodau o'r teulu. Mae cost ariannol uchel i hyn, a chlywodd y grwpiau ffocws fod y rhestr aros ar gyfer apwyntiadau yn amrywio o sawl wythnos i hyd at chwe mis mewn rhai achosion.

**20.** Nododd eraill na ellir gwarantu'r hawliau sydd gan bob dinesydd ar hyn o bryd, yn sgil aelodaeth y DU o'r UE, ar ôl Brexit. Dadleuwyd bod angen i Senedd y DU ymgorffori'r hawliau hyn mewn deddfwriaeth sylfaenol.

## Cyllid trydydd sector

**21.** Tynnodd nifer o gyfranogwyr sylw at y ffaith bod y trydydd sector, sydd ar hyn o bryd yn darparu cymorth a chefnogaeth i ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru (gyda pheth arian ychwanegol yn dod oddi wrth Lywodraethau Cymru a'r DU) hefyd yn dibynnu ar gyllid yr UE. Nodwyd bod y sefyllfa yn y dyfodol o ran cyllid yr UE yn ansicr iawn, yn enwedig yng Nghymru, sy'n derbyn llawer iawn o gronfeydd cymdeithasol a chydlyniant yr UE.

**22.** Nodwyd mai ychydig iawn o sicrwydd sydd gan y trydydd sector ar hyn o bryd o ran cyllid y tu hwnt i 2020, a bod y materion a drafodir mewn perthynas â dinasyddion yr UE yn debygol o barhau ymhell i'r degawd nesaf.

## 1. 2. Polisi mewnfudo yn y dyfodol

**23.** Amlygodd rhai cyfranogwyr y niwed bosibl a wnaed i enw da rhyngwladol y DU ers y bleidlais Brexit, a dadleuwyd y gallai'r DU gael anawsterau i ddenu talent o dramor yn y dyfodol.

**24.** Gwnaeth nifer o gyfranogwyr yr achos dros roi'r hawl i ddinasyddion yr UE bleidleisio ym mhob etholiad yn y dyfodol. Nodwyd bod y Mesur Senedd ac Etholiadau (Cymru) sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan y Cynulliad yn debygol o gael ei ddiwygio er mwyn rhoi'r hawl i bob dinesydd o lefydd eraill yn Ewrop ac sy'n byw yng Nghymru bleidleisio mewn etholiadau datganoledig a lleol.

## Trothwy cyflog

**25.** Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr eu bod yn anghytuno â'r trothwy cyflog o £30,000 y flwyddyn a gynigiwyd gan Lywodraeth flaenorol y DU yn ei Phapur Gwyn ar ddyfodol y polisi mewnfudo.[2]

**26.** Nododd rhai cyfranogwyr y gallai'r sector iechyd a gofal cymdeithasol gael ei daro'n arbennig o galed gan drothwy cyflog o £30,000 y flwyddyn.

## Dyfodol Mwy Disglair i Gymru

**27.** O ran papur polisi diweddaraf Llywodraeth Cymru, 'Dyfodol Mwy Disglair i Gymru'; codwyd pryderon ynghylch y posibilrwydd o gyflwyno rheolaethau mewnfudo ychwanegol. Yn benodol, mynegwyd pryderon ynghylch unrhyw symud tuag at gael gwared ar wladolion yr UE sy'n methu â sicrhau gwaith o fewn eu chwe mis cyntaf o breswylio. Nododd un cyfranogwr fod hyn yn ymddangos fel adlais o'r polisi "amgylchedd gelyniaethus".

## Agweddau tuag at fewnfudo

**28.** Clywodd y ddau grŵp ffocws dystiolaeth anecdotaidd yn ymwneud ag enghreifftiau o rethreg gwrth-fewnfudwyr a bwlio, yn enwedig mewn ysgolion.

**29.** Disgrifiodd cyfranogwr arall y ffordd yr oeddent bellach yn teimlo bod arnynt ofn siarad yn eu hiaith frodorol ar y stryd.

[2] Ers cyhoeddi'r Papur Gwyn, mae'r Llywodraeth newydd o dan brifweinidogaeth Boris Johnson AS wedi gofyn i'r Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo edrych eto ar y cynigion ar gyfer polisi mewnfudo yn y dyfodol. Mae'r adolygiad hwn yn dal i fynd rhagddo.

**30.** Rhannodd rhai cyfranogwyr dystiolaeth anecodtaidd o wrthod mynediad i bobl at wasanaethau, gan gynnwys gofal iechyd. Nodwyd nad yw rhai staff rheng flaen wedi'u hyfforddi ac nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth o ran sut mae Brexit, a’r newidiadau i reolau rhyddid i symud, yn ymwneud â mynediad at wasanaethau.

**31.** Teimlai nifer o gyfranogwyr y gallai cyflogwyr chwarae mwy o ran wrth anfon negeseuon o gefnogaeth i wladolion yr UE o fewn eu gweithluoedd.